**Mae Sgiliau a Gwybodaeth Prentisiaeth Gradd Tirfesur Meintiau Lefel Uchel yn cynnwys**

**Sgiliau**

**Bydd Tirfesurydd Meintiau'n gallu:**

Darparu data, gwybodaeth a chyngor i rhanddeiliaid sy'n berthnasol i Dirfesur Meintiau.

Argymell atebion i sicrhau amgylcheddau gwaith diogel a sicr.

Darparu cyngor yn ymwneud â thechnoleg adeiladu adeiladau neu strwythurau a'u deunyddiau yn ymwneud â chost.

Darparu cyngor ac argymhellion ar lwybrau caffael priodol a rheoli'r prosesau tendro sy'n berthnasol iddynt.

Cyfrannu at reoli cyfarwyddiadau contract o'r ymgysylltu i'r cwblhau o ran amser, cost ac ymwybyddiaeth o ansawdd.

Gweithredu gweithdrefnau gweinyddol ar gyfer rhedeg prosiect adeiladu yn unol â ffurfiau safonol contractau adeiladu.

Paratoi cyfarwyddiadau, delio â darpariaethau talu, rheoli gweithdrefnau amrywio ac ymdrin â materion cwblhau a meddiannu a chyhoeddi tystysgrifau.

Cynnal y meintioli manwl gan gynnwys Mesur Meintiau, costio a chynllunio costau gwaith adeiladu.

Cyflawni prosesau peirianneg gwerth. Paratoi data, adroddiadau a rhagolygon.

Cynnal astudiaethau dichonoldeb neu werthusiad prosiect generig.

Cymhwyso'r canllawiau priodol a defnyddio'r sail briodol i wneud mesuriadau megis mesur gwaith.

Paratoi a chyflwyno mesuriadau stafonol yn unol â rheolau newydd ar gyfer mesur.

Dadansoddi costau a manteision mentrau cynaliadwyedd ar brosiect.

Gallu cynghori ar yr atebion adeiladu mwyaf addas sy’n sicrhau’r gwerth mwyaf i randdeiliaid ac sy’n gwella cost-effeithiolrwydd y prosiect o fewn cyfyngiadau’r gyllideb.

Rhoi cyngor ar y dulliau priodol o fesur y gwaith sydd wedi’i gwblhau a chyhoeddi’r dogfennau sydd eu hangen i dalu contractwyr arbenigol.

Monitro adroddiadau a chynghori tîm adeiladu a/neu randdeiliaid ar lif arian y prosiect a phroffidioldeb. Gwerthuso a chynghori ar oblygiadau ariannol penderfyniadau yn ystod y cyfnod adeiladu a/neu faterion ôl-gontract.

Dangos dealltwriaeth o fantolenni, cyfrifon elw a cholled a chynlluniau busnes.

Gallu defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn Effeithiol

Gwerthfawrogi'r rôl y mae aelodau eraill o'r tîm adeiladu yn ei chwarae.

**Gwybodaeth**

**Bydd Tirfesurydd Meintiau yn gwybod:**

Sut i wneud y weithred o brisio cylch bywyd. Paratoi data, adroddiadau a rhagolygon.

Dealltwriaeth o lwybrau caffael ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol

Rôl y Tirfesurydd Meintiau yn ystyried cynllun gwaith RIBA.

Y dulliau a'r technegau ar gyfer darparu gwybodaeth, data a chyngor i gleientiaid neu gydweithiwr neu randdeiliaid.

Sut i sicrhau amgylcheddau gweithio diogel i chi’ch hun ac i eraill.

Pwysigrwydd a chydnabod amrywiaeth. Gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol, a moesegol gan gynnwys amgylcheddau cynhwysol e.e. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Sut i ymgorffori cynaliadwyedd mewn prosiectau a sut i ddylanwadu ar ymddygiad cleientiaid a rhanddeiliaid i liniaru newid yn yr hinsawdd e.e. caffael cadwyn gyflenwi

Y dechnoleg adeiladu cymhleth gan gynnwys deunyddiau.

Sut i reoli perthnasoedd cleient/cwsmer, rhanddeiliaid.

Camau amrywiol y broses ddylunio, gofynion a rheoliadau cyfreithiol gan gynnwys cynllunio, Rheoliadau Adeiladu a gofynion iechyd a diogelwch a golygiadau strwythurol y dyluniad.

Ffurfiau Safonol contract ac is-gontract codi/adeiladu mecanweithiau a gweithdrefnau cytundebol a gymhwysir ar wahanol gamau o’r contract.

Rôl a chyfrifoldebau gweinyddwyr y contract a dyletswyddau’r partïon i’r contract.

Pan fo gwahanol fathau o gaffael a thendro yn briodol a chymalau contractau adeiladu/seilwaith.

Meintoliad a chostio manwl y gwaith adeiladu a'r dulliau cynllunio costau y gellir eu cymhwyso.

Sut i reoli prosiect adeiladu ac egwyddorion trefniadau wrth gefn a lwfansau risg, prisio cylch bywyd a pheirianneg gwerth.

Technegau i reoli contractwyr, isgontractwyr a/neu gyflenwyr. Adrodd a rhagweld.

Sut i gynnal prisiadau cyfalaf a rhent o dir ac eiddo a'r gofynion ar gyfer adrodd ar brisio.

Y sail ar gyfer mesur, technegau cipio data a safonau a chanllawiau priodol. Cyfyngiadau a graddau cywirdeb sydd eu hangen ar gyfer mesuriadau.

Deall effaith amgylcheddol gweithgareddau Adeiladu a sut i leihau effeithiau negyddol yn ystod pob cam o’r Adeiladu.

Sut i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn Effeithiol.

**Ymddygiadau**

Darparu gwasanaeth o safon uchel – Sicrhau bod eich cleient, neu eraill y mae gennych gyfrifoldeb proffesiynol drostynt, yn cael y cyngor, cymorth neu berfformiad gorau posibl o ran y telerau ymgysylltu rydych wedi cytuno iddynt ar bob adeg a sicrhau bod sylw’n cael ei rhoi i fanylion ar bob adeg.

Gweithredu mewn ffordd sy’n hybu ymddiriedaeth yn y proffesiwn o dirfesur – gweithredu mewn modd sy’n hyrwyddo eich hun, eich cwmni, neu’r sefydliad rydych yn gweithio iddo mewn ffordd broffesiynol a phositif, yn eich bywyd proffesiynol a’ch bywyd preifat ill dau.

Gweithredu ag uniondeb ac yn ddiduedd, bod yn ymddiriedadwy, yn agored ac yn eglur ar bob achlysur.

Parchu gwybodaeth gyfrinachol eich cleientiaid neu ddarpar gleientiaid a pheidio â chaniatáu i ragfarn, gwrthdrawiad buddiannau na dylanwad gormodol eraill ddiystyru eich barn neu rwymedigaethau proffesiynol neu fusnes.

Gweithredu’n gyson er budd y cyhoedd bob amser wrth wneud penderfyniadau neu roi cyngor.

Trin eraill â pharch – trin pawb â chwrteisi, moesgarwch a pharch ac ystyried sensitifrwydd diwylliannol ac arferion busnes.

Hyrwyddo cynaliadwyedd, gan gynnwys arferion ynni effeithlon i leihau effaith amgylcheddol negyddol a lleihau newid hinsawdd.

Cymryd cyfrifoldeb – Gweithredu â sgil, gofal a diwydrwydd bob amser a delio ag unrhyw gŵyn mewn modd proffesiynol priodol.

Nodi eich anghenion datblygu eich hun a chymryd camau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Deall a chadw at fframweithiau llywodraethu a rheoleiddio Cyrff Proffesiynol y Diwydiant. Safonau moesegol byd-eang a phroffesiynol a chymhwyso'r Rheolau Ymddygiad a sut i ddelio â chyfyng-gyngor moesegol.

***Pynciau ar gyfer Tirfesur Meintiau***

1.Effaith a manteision Tirfesur ar Gymdeithas a'r Amgylchedd

2.Cynaladwyedd

3. Technoleg Adeiladu

4. Cyfraith tir, eiddo, a chynllunio

5. Dulliau Ymchwil

6. Cydymffurfio â chodau a manylebau cyfredol

7. Patholeg Adeiladu neu strwythurau

8. Gweinyddu contractau

9. Rheoli Cyllidebau, adnoddau, a risg

11. Iechyd a Diogelwch

12. Cyfathrebu Effeithiol

13. Amrywiaeth a Chynhwysiant

14. Personol a Rhyngbersonol

15.Rheoli Pobl